

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 10fed Tachwedd 2020 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

- 1. Presennol:** Sian Dafydd (Cadair), Gareth Lloyd Jones, Peter Bridges – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo, Ffion Jones – Nantlle; Iona Wyn Jones, Barry Bracegirdle, Justin Davies, Erfyl Williams – Penygroes; Gwyndaf Roberts, OP Huws, Hefina Roberts – Llanllyfni; Judith Humphreys a Craig ab Iago - Cynghorwyr Sir;
Ymddiheuriadau: Harry Wyn Owen – Talysarn, Dylan Herbert - Penygroes. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd, Talysarn. Roedd Justin Davies wedi ymddiheuro na fuasai yn cyrraedd tan 8.00. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan.
- 3. Amseru cyfarfodydd a thrafodaethau** – Esboniodd Sian Dafydd i bawb pam fod hyn ar yr agenda a diolch i bawb hefyd am fod mor barod i newid system a gorfod cyfarfod yn rhithiol bob mis. Roedd yn **cynnig** y dylid cael trefn fel nad yw cyfarfodydd a thrafodaethau yn mynd yn hir. Rhestrodd ei chynnigion o ganllawiau. **Cynnigiodd** OP Huws fod y cyngor yn derbyn y canllawiau mewn egwyddor ond gofynnodd hefyd os y buasai yn bosib i Sian ebostio copi o'r canllawiau i bawb gael edrych drostynt erbyn y cyfarfod nesaf. **Trafodwyd a cytunodd pawb i hyn.** **Cynnigiodd** Craig ab Iago os y buasai yn syniad iddo ef a Judith Humphreys rhoi eu hadroddiad mewn ebost i'r cynghorwyr ymlaen llaw i gyfarfod ag yna buasai y cyngor cymuned yn cael cyfle yn y cyfarfod i godi unrhyw gwestiynau. **Trafodwyd a cytunodd pawb i hyn.**
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 8 Medi 2020.** Esboniodd OP Huws nad oedd wedi cael cyfle i fynd i weld wal Mynwent yr Eglwys ag hefyd bod angen cywiro mai o BOSIB fod y cyngor cymuned yn gyfrifol o'r darn y soniwyd amdano. **Cynnigiodd** Gwyndaf Roberts fod y cofnodion yn gywir ag **eiliodd** Barry Bracegirdle.
- 5. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Cynghorydd Judith Humphreys – adroddwyd ar y gwahanol gyfarfodydd ac ymatebion i wahanol brosiectau y mae hi fel cynghorydd yn ymwneud a hwy. Gofynnodd os oedd yn iawn iddi brynu goleuadau er mwyn eu rhoi ar y goeden nadolig. Esboniodd Dafydd Thomas bod yna oleuadau sydd yn rhedeg ar fatri ar gael nawr ag efallai y buasai rhain yn syniad yw cael. Nid oedd **dim gwrthwynebiad** i Judith gario ymlaen a chael y golau sydd ei angen. Cynghorydd Craig ab Iago – adroddwyd ar y gwahanol gyfarfodydd ac ymatebion i wahanol brosiectau y mae o fel cynghorydd yn ymwneud a hwy. Diolchwyd i Judith a Craig am eu adroddiadau.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.**
Tendr Macpelah – Adroddodd OP Huws i'r Cyngor dderbyn adroddiad proffesiynol o gostau manwl cynllun Mynwent Macpelah. Roedd yn bosib gwneud arbedion oherwydd i'r pris fod yn sylweddol lai na'r amcangrif. Y Cynghorydd Gwyndaf Roberts i anfon copiau at yr aelodau er gwybodaeth. Awgrymodd OP Huws y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r grŵp cyllid i drafod y gyllideb o'r newydd er mwyn blaenoriaethau'r anghenion gan adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn ar eu hargymhellion. **Pawb yn cytuno.**
Grŵp Ffatri Northwood Penygroes – Esboniodd OP Huws fod cyfarfod yn digwydd ar 27 Tachwedd a bydd yn mynychu ac yn adrodd yn ôl i'r cyngor cymuned yn ein cyfarfod nesaf. Roedd nifer o syniadau wedi eu gwyntyllu yn cyfarfod diwethaf, ac yn awr mae'r Safle ar werth mae modd edrych ar beth sy'n bosib. Mae Adran Economaidd Gwynedd yn arwain, ond mae OP Huws wedi datgan cefnogaeth lwyr ar ran y Cyngor Cymuned, ac yn ymrwmo i gydweithio i sirchau gwaith i'r Dyffryn. Gofynnai tybed yw'n bosib i'r Cyngor helpu yn ymarferol i ddenu tenant neu brynwr i'r ffatri. Bydd OP Huws yn adrodd yn ôl yn dilyn y cyfarfod nesaf. **Cynnig** cael cyfarfod hefo Gareth Jones, Sian Dafydd a unrhyw un

arall o'r cyngor sydd â ddi-ddordeb i drafod hyn ymhellach er mwyn cynnig awrgymiaidau i'r cyfarfod ynglŷn â helpu'r economi leol. Cafwyd cefnogaeth unfrydol.

Eryr Aur Eryri – OP Huws wedi edrych mewn i'r prosiect hwn yn fanwl ac adroddodd i'r cyngor beth yr oedd wedi ei ddarganfod – (Adroddiad gan OP Huws) – “Partneriaeth rhwng Prifysgol Leicester yn Lloegr a Wilding Britain yw hwn, a'r bwriad ydi cyflwyno Eryr Aur i Eryri, ar ôl bron i ddau gan mlynedd. Yn cael ei arwain yn bennaf gan Dr O'Donoghue, sydd wedi ei ysbydoli gan arbrawf tebyg yn yr Alban. Rhaid cael caniatâd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru, ond gall hynny gymryd sawl mis. Dyna yw pwrpas yr ymgynhorriad efo ni a chynghorau eraill. Wrth inni edrych yn fanwl ar y cynllun credaf iddi fod yn gamarweiniol i ddefnyddio profiad yr Alban fel sail i ryddhau yr Eryr Aur i Eryri. Fel sy'n amlwg, mae'r tirlun mynyddig yn yr Alban yn llawer mwy eang na Chymru, gyda o leiaf 17 o fynyddoedd sydd yn uwch na'r Wyddfa. Parc Cenedlaethol y Cairngorms yw'r Parc Cenedlaethol mwyaf yn Ynysoedd Prydain. Mae'r Cairngorms yn 4,528 cilomedrau sgwar mewn ardal sydd 40% mwy nag ardal y Llynnoed yn Lloegr, a dwywaith maint Loch Lomond a'r Trossachs. Llawer mwy na Pharc Cenedlaethol Eryr sydd dim ond yn 823 milltir sgwâr, ac yn gartref i dros 26,000 o breswylwyr. Mae pryder mawr ynglŷn â rhywogaethau cynhenid mynyddoedd Eryri sydd yn prinhau, a gwelwn bryder arbennig ynglŷn â diflaniad yr ysgyafnwg, ynghyd â sawl anifail bach ac adar llai ein mynyddoedd. Ymateb Dr O'Donoghue yw “The staple diet of golden eagles in the UK was red grouse and mountain hares, but as Wales' populations of these was “near non-existent... we must question whether the golden eagle in Wales will adapt a much more generalist diet”.

FEL BETH TYBED ??? Onid gwell cael cynllun i amddiffyn bywyd gwyllt cynhenid Cymru?

Mae'r ffermwyr hefyd yn bryderus iawn ynglŷn â diogelwch eu defaid ac ŵyn, gan ei fod yn hybsys y gall yr Eryr gario pwysau sydd yn cyfateb i bwysau oen a hyd yn oed ddafad .

Rwy'n cynnig felly ein bod yn gwrthwynebu prosiect Wilding Britain i gyflwyno'r Eryr Aur i Eryri er mor rhamantus y syniad ar yr olwg gyntaf, mae'n peryglu rhywogaethau cynhenid Cymru, ac yn dderbyn diarth iawn i ni erbyn heddiw.”

Trafodwyd y pwyntiau hyn a godwyd gan OP Huws a **phenderfynwyd cefnogi** ei gynnig a chysylltu gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r cynllun. **Eiliwyd** y cynnig gan Erfyl Williams, a **phleidleisiodd yr aelodau yn erbyn y cynllun**. **Cynnigiodd** Gwyndaf Roberts y dylid tynnu sylw cynghorau cymunedol eraill at ein penderfyniad a Barry Bracegirdle yn **awgrymu** gofyn wrth y Parc am eu barn.

Goleuadau Nadolig – adroddwyd nad ydi Dale wedi cael amser i gario allan y gwaith sydd eisiau ei wneud gan ei fod yn brysur a hefyd mae'r tywydd wedi bod yn ei erbyn.

Trafodwyd sut i fynd ymlaen gyda'r goleuadau – **cynnigiodd** Justin Davies y buasai yn gyrru neges i ofyn i Dale beth oedd yn digwydd a **penderfynwyd** disgwyl am ymateb ganddo cyn symud ymlaen.

Arolwg Anghenion Tai – adroddiad wedi ei dderbyn ac wedi ei basio mlaen i bawb gael edrych drosti cyn y cyfarfod ac mae yna ambell i bwynt yn codi o'r adroddiad. **Trafodwyd** hyn a **cynnigiodd** Justin Davies y buasai yn rhoi llythyr at ei gilydd yn nodi y pwyntiau a godwyd ag esboniad a'i basio ymlaen i'r clerics iddi gael ei ebostio iddynt. **Cytunywd** gyda hyn a diolchwyd i Justin.

Man ail-gylchu Penygroes – holodd Iona Jones beth sy'n mynd ymlaen gyda hyn ac esboniodd Sian Dafydd nad oedd neb i weld yn ymateb i hyn ag felly dim wedi ei gynnwys ar yr agenda. Esboniwyd fod Craig ab Iago a Peter Bridges yn cyfarfod yfory ag yn fodlon rhoi y syniad ymlaen i'r ysgolion lleol. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** y buasai Peter Bridges, Sian Dafydd, Iona Jones, Justin Davies a Ffion Jones yn trafod hyn ag yn ymateb yn nôl i'r cyngor llawn fis nesaf.

Ymatebion Cyngor Gwynedd – Dylan Jones Adran Prif-ffyrdd Cyngor Gwynedd wedi cynnig cyfarfod ynglŷn a'r gor-yrdd i fewn i'r cylchdro o gyfeiriad Llanllyfni – **cytunodd** Barry Bracegirdle i fynyachu y cyfarfod a **cynnigwyd** y dylid gwahodd PCSO Geraint Williams hefyd – y clerics i gysylltu gydag o, a cysylltu gyda Dylan Jones i gadarnhau.

Darllenodd y clerc gweddill yr ymatebion yr oedd wedi ei derbyn er gwybodaeth i'r cynghorwyr.

7. Taflen Ariannol a Chyllid – Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros ebost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Nid oedd dim sylwadau ac fe'u cymeradwywyd. Esboniodd Sian Dafydd fod pwyntiau wedi codi gan yr archwilwyr ynglyn a archwiliad 2019/20 a bod angen gwybodaeth ynglyn a chyfraniadau ariannol ag at beth oedd eu diben. Y clerc i yrru rhestr i bawb o'r sefydliadau a oedd wedi derbyn cyfraniad er mwyn cael ymateb i'r archwilwyr.

8. Problem traffic yn Penygroes – gofynodd Justin Davies os oedd posib gohirio trafod y mater hwn hyd nes cyfarfod mis Rhagfyr er mwyn cael mwy o amser i gasglu gwybodaeth at ei gilydd – **cytunodd** pawb i hyn.

9. Gwefan Cyngor Cymuned Llanllyfni a tudalen ar Gweplyfr – esboniodd Justin Davies ei fod yn rhagweld y bydd yn raid i'r cyngor edrych ar gael gwefan newydd yn y dyfodol agos a **cytunodd** Justin i edrych fewn i hyn. **Penderfynwyd** i drafod y gweplyfr yn y cyfarfod nesaf.

10. Materion Pentrefi – Talysarn – dim mater yn codi.

Nantlle - Nantlle Terrace, Nantlle - mae gwrych wedi tyfu o'r cae gyferbyn a bellach yn culhau y ffordd fwy fwy ydych yn mynd ar ei hyd (am chwarael Doroethea). Hyn yn golygu fod biniau a bagiau melyn o'r tai yn cael eu pwshio fwy allan i'r ffordd, a wedyn ceir yn dreifio dros y bagiau. Y clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd am hyn.

Ffion Jones yn gofyn oes posib mynd nôl at Gyngor Gwynedd a pwyso arnynt pwysigrwydd dod a mesurau 50mya ar y ffordd o Bro Silyn i Nantlle – y clerc i gysylltu gyda'r cyngor.

Penygroes – Draen wrth 25 Water Street yn rhydd ag angen sylw brys gan ei fod yn beryglus. Iona Jones wedi pasio ebost ymlaen i bawb edrych drosto ynglŷn â addysg ôl 16. Annog pawb i fynd ar y wefan o'r ebost. Iona hefyd yn hysbysu y cyngor y bydd yn ymddiswyddo fel cynghorydd ward Penygroes ar ddechrau'r flwyddyn 2021.

Llanllyfni – Hefina Roberts yn bryderus o'r broblem parcio sydd o flaen yr troead am yr ysgol – fan wen yn cael ei pharcio yn anghyfreithlon yno drwy'r amser ac yn ei gwneud yn beryglus. Craig ab Iago am gysylltu gyda'r cyngor am hyn. Gwyndaf Roberts yn adrodd fod arwyddion yn rhydd o gwmpas y pentref – arwydd amser bysiau yn Felin Gerrig (Craig wedi codi hyn gyda'r cyngor yn barod), arwydd Porthmadog yn Nasareth ac arwydd wrth Fferm Y Berth wedi troi. Adrodd hefyd bod gullies ar Lôn Ddŵr angen eu glanhau. Hefyd adrodd bod y ffordd wrth ddod allan o'r maes parcio dros y ffordd i'r co-op yn Penygroes wedi sincio a hefyd ar y ffordd ei hun. Y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am y materion hyn.

Nebo – Y wal gerrig ar Ffordd Nasareth dal wedi disgyn – y clerc i holi Cyngor Gwynedd am hyn. Diolchwyd i Harri Owen am ddod ar torchau i Nebo a Penygroes ar gyfer Sul Y Cofio.

11. Cynllunio: Ceisiadau sydd wedi dod ger bron – Cais C20/0810/22/LL – The Woolen Mill Ffordd Clynnog, Penygroes – dim gwrthwynebiad.

Cais C20/0827/22/DT – Gwenfro, 24 Ffordd Llwyndu, Penygroes – dim

gwrthwynebiad. Cais C20/0853/22/LL – Tir ger Oxton Villa, Ffordd Haearn Bach, Penygroes – dim gwrthwynebiad.

12. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis – dim byd i'w drafod yma.

13. Gohebiaeth – roedd pawb wedi derbyn y gohebiaeth a oedd wedi eu derbyn i gyd tros y mis. Gohebiaeth ychwanegol wedi dod i law oedd cais cynllunio rhif C20/0785/22/YA, Fferm Taldrwst Lôn Ddŵr, Llanllyfni – y clerc wedi pasio hwn ymlaen i bawb gael edrych drosto a pawb i ymateb i'r ebost er mwyn i'r clerc gael ymateb yn nôl i Gyngor Gwynedd. Cais wedi dod gan Grŵp Cynefin yn gofyn os oedd modd i Mair Edwards ddod i gyfarfod o'r cyngor cymuned i drafod Prosiect Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle. **Cytunodd** pawb i hyn a bod y clerc i gysyllt nôl i'w gwahodd i gyfarfod mis Rhagfyr ond nodi mai hanner awr o amser oedd yn cael ei benodi ar gyfer y sgwrs – chwarter awr o sgwrs a chwarter awr o gyfle i holi cwestiynau wedyn.

14. Llwybrau a Mynwentydd – Esboniodd Sian Dafydd am y cwynion a oedd wedi eu derbyn yn dilyn gwaith a oedd wedi cael ei gario allan ym Mynwent Macpelah yn ddiweddar. Yn dilyn trafodaeth am y mater **cynnigiodd** Dafydd Thomas y dylid nodi yn y gontract na ddylid defnyddio peiriannau mawr trwm yn y fynwent. Penderfynwyd bod yn rhaid drafftio ymateb i'r Daily Post gan eu bod hwy wedi cysylltu gyda'r clerch ar ôl i aelod o'r cyhoedd fynd atynt. Adroddodd Sian ei bod wedi ymweld ar fynwent heddiw a bod pethau wedi tacluso yno ar ôl i'r contractwyr fynd yn nôl, a hefyd bod wedi tacluso yno yn dilyn tynnu y corlannau.

15. Materion yn ymwneud â'r heddlu – Dim i'w adrodd.

16. Materion ariannol –Nia Jones – Ffôn a rhyngwyd Tachwedd £25. Zoom Tachwedd £14.38. Cytunwyd i'w talu.